GWEITHREDU DROS ANIFEILIAID

Gostyngodd nifer yr achosion o greulondeb i anifeiliaid yn 2009, efallai am fod 2008 wedi bod yn flwyddyn eithriadol o brysur i'r RSPCA, neu am fod Deddf Lles Anifeiliaid wedi codi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r gofal y dylent ei roi i'w hanifeiliaid.

## DEDDF LLES ANIFEILIAD 2006

Y cynghorau lleol, swyddogion iechyd anifeiliaid a'r heddlu sy'n gorfodi Deddf Lles Anifeiliaid. Y gosb ydy cael eich gwahardd rhag bod yn berchen ar anifeiliaid, dirwy o hyd at £20,000 a/neu'ch anfon i'r carchar am hyd at chwe mis.

Anifeiliaid sy'n cael eu gwarchod ydy'r rhai

- sy'n gyffredin ddof yn Ynysoedd Prydain
- sydd dan reolaeth dyn e.e. mewn syrcas neu sŵ
- sydd ddim yn byw yn y gwyllt

### Hyrwyddo lles anifeiliaid

Perchennog yr anifail sy'n gyfrifol am les yr anifail. Os yw plentyn dan 16 oed yn gofalu am anifail, y sawl sy'n gyfrifol am y plentyn (rhiant neu warcheidwad) sy'n gyfrifol am yr anifail.

Yn ôl y ddeddf mae anghenion anifail yn cynnwys

i. amgylchedd addas
ii. deiet addas
iii. bod yn rhydd i ymddwyn yn naturiol
iv. cael ei warchod rhag poen

### Anifeiliaid i rai dan 16 oed

- Mae gwerthu anifail i unrhyw un dan 16 oed yn anghyfreithlon.
- Mae cynnig anifail i rywun dan 16 oed fel gwobr yn anghyfreithlon.


### Atal niwed i anifeiliaid

- Mae achosi dioddefaint a chaniatáu i rywun arall achosi dioddefaint yn drosedd.
- Mae ymyrryd ag esgyrn anifeiliaid heb angen yn anghyfreithlon.
- Mae cwtogi cynffonnau cŵn yn drosedd ond caiff ei ganiatáu ar gyfer triniaeth feddygol neu os yw'r ci yn gi gwaith o frîd penodol.
- Mae gwenwyno e.e. gadael gwenwyn llygod mawr mewn lle y gall anifail arall ei fwyta, yn anghyfreithlon.

Yn 2009 achubodd yr RSPCA 135,293 o anifeiliaid ac ymholi i 141,280 achos o greulondeb. Cafodd 2,579 eu cyhuddo, 69 eu carcharu a 98 eu dedfrydu i garchar gohiriedig. Ar gyfartaledd roedd rhywun yn Lloegr a Chymru yn galw llinell creulondeb 24 awr yr RSPCA bob 30 eiliad.

Llinell creulondeb: 0300 1234999

Yr anifeiliaid gafodd eu camdrin fwyaf:




Gwelwyd penawdau fel:

- Perchennog twp yn achosi dioddefaint
- Y ceffyl teneuaf i mi erioed ei weld yn fyw neu yn farw
- Ci yn cael ei adael i farw mewn cwt tra bod ei berchennog yn dathlu'r Dolig
- 240 anifail mewn un tŷ